PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

Cyfarwyddwr Gweithrediadau

Pecyn Ymgeisio

childreninwales.org.uk/cy/

Cyflwyniad

Diolch am eich diddordeb yn swydd y Cyfarwyddwr Gweithrediadau. Bwriad yr wybodaeth sydd ynghlwm yw rhoi darlun llawnach i chi o'r hyn y mae'r swydd yn ei gynnwys a gwybodaeth am fanteision gweithio i Plant yng Nghymru.

Mae'r disgrifiad swydd wedi'i gynllunio i grynhoi cwmpas a chyfrifoldebau'r swydd yn glir. Pwrpas manyleb y person yw nodi, mor fanwl â phosibl, y sgiliau, y profiad a'r wybodaeth ofynnol y mae'n rhaid i ymgeiswyr feddu arnynt i fodloni gofynion y swydd. **Mae'n hanfodol eich bod yn darllen hwn yn ofalus ac yn cyfeirio eich cais at y meini prawf a gynhwysir ym manyleb y person.** Os na fyddwch yn gwneud hynny, ni fydd gennych gystal siawns o gael eich dewis am gyfweliad.

Bydd y broses ymgeisio yn cau am **hanner dydd, dydd Llun 14 Rhagfyr 2026.**

Bydd ein tîm recriwtio yn llunio rhestr fer ar gyfer cyfweliadau ond ni fydd yn cael eich manylion cyswllt nac unrhyw wybodaeth am gyfle cyfartal. Bydd yr wybodaeth a ddarparwyd gan ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael ei chadw'n ddiogel am flwyddyn ac yna'n cael ei dinistrio'n gyfrinachol.

Os byddwch yn llwyddo i gael cyfweliad, cewch wybod trwy'r cyfeiriad e-bost a ddarparwyd i ni. Trefnwyd y cyfweliadau ar gyfer **6th & 7th Ionawr 2027**

Rydym yn deall y gall offer AI helpu gyda phrawfddarllen a mireinio cynnwys; fodd bynnag, gofynnwn fod holl ddeunyddiau'r cais, gan gynnwys llythyrau eglurhaol ac ymatebion, yn cael eu hysgrifennu yn eich geiriau eich hun i adlewyrchu eich sgiliau a'ch profiadau dilys.

Disgrifiad Swydd – Cyfarwyddwr Gweithrediadau

Contract:	Parhaol
Cyflog:	£51,687.08
Oriau Gwaith:	35 awr yr wythnos
Gwyliau Blynyddol:	28 diwrnod y flwyddyn ynghyd â Gwyliau Banc gyda chynllun Prynu eich Gwyliau blynyddol a hawl ychwanegol am wasanaeth hir.
Dull Talu:	Mae cyflogau'n cael eu talu'n uniongyrchol i gyfrif banc enwebedig aelod o staff ar y 15fed o bob mis.
Pensiwn:	Cofrestru'n awtomatig i Gynllun Pensiwn y Gweithle am isafswm cyfraniad cyflogwr o 5%. Os bydd y gweithiwr yn dewis cynyddu ei gyfraniad ei hun, bydd Plant yng Nghymru yn cyfrannu'n gyfatebol hyd at 8%.

Mae manteision eraill yn cynnwys ein cynllun Beicio i'r Gwaith, Tickets For Good a chonsesiynau ar gyfer cyrsiau dysgu rhan-amser i oedolion yn SBARC. Mae cymorth cyfrinachol 24/7 gan ein Rhaglen Cymorth i Weithwyr ar gael hefyd i weithwyr Plant yng Nghymru.

Ynglŷn â'r rôl:

Mae rôl y Cyfarwyddwr Gweithrediadau yn allweddol i gyflawni uchelgeisiau strategol Plant yng Nghymru i ymgorffori Hawliau Plant ledled Cymru ac i wella ansawdd yr ymarfer yn y gweithlu plant a phobl ifanc. Yn rhan o'r Uwch Dîm Arwain, bydd deiliad y swydd hon yn goruchwylio cynllunio a pherfformiad gweithredol. Bydd yn arwain gwaith cyflawni prosiectau a rhaglenni rhagorol, yn goruchwylio rheoli contractau hanfodol, yn monitro cynnydd ac yn adrodd ar effaith. Bydd yn cyfrannu at gyfeiriad strategol y sefydliad, gan oruchwylio ein rhaglen Cymru Ifanc, prosiectau darparu Hyfforddiant ac Ymgynghori, yn ogystal â data perfformiad.

Mae Plant yng Nghymru yn gweithio i gyflawni ei strategaeth 5 mlynedd (Tuag at Gymru Well i Fabanod, Plant a Phobl Ifanc 2025-2030) a bydd y Cyfarwyddwr Gweithrediadau yn chwarae rôl hanfodol wrth osod a chyflawni amcanion o fewn y cynllun strategol hwnnw.

Lleoliad

Hybrid o gartref neu Swyddfa Caerdydd, a phresenoldeb yn y swyddfa yn ofynnol o leiaf bob pythefnos.

Perthnasoedd

Adrodd i'r Prif Swyddog Gweithredol, fel aelod o'r Uwch Dîm Arwain. Cyfrifoldeb rheoli llinell am hyd at 5 gweithiwr uniongyrchol. Gweithio ar draws y sefydliad, gyda chyfrifoldeb arbennig am dimau gweithredol: Hyfforddiant, Cymru Ifanc a Phrosiectau a Phartneriaethau. Bydd

cyfarwyddo gwaith y timau hyn yn golygu y bydd deiliad y swydd yn cynnal nifer o berthnasoedd allanol a bydd tyfu rhwydwaith o ddarpar bartneriaid a chleientiaid yn rhan bwysig o'r rôl. O ystyried natur hanfodol diogelu i'n gwaith gweithredol, bydd deiliad y swydd yn goruchwylio'r Arweinydd Diogelu. Bydd yn gyfrifol hefyd am reoli llinell un swydd sy'n goruchwylio data aelodaeth Plant yng Nghymru. Yn allanol, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu gweithrediadau Plant yng Nghymru yn sylweddol a bydd y rôl hon yn gweithio'n agos gyda swyddogion i sicrhau bod targedau'n cael eu cyflawni.

Cyfrifoldeb Ariannol

Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am weithio gydag aelodau eraill o'r Uwch Dîm Arwain a Rheolwyr priodol i osod targedau ariannol ar gyfer y timau y mae'n eu rheoli, y bydd wedyn yn adrodd yn eu herbyn. Bydd yn gyfrifol am gydymffurfio â chontractau, gan weithio gyda'u rheolwyr.

Crynodeb o'r Dyletswyddau Allweddol:

- Atebolrwydd am gyflawni prosiectau/rhaglenni allweddol yn llwyddiannus gan gynnwys cyfrifoldeb am drefniadau rheoli contractau gyda chyllidwyr a chomisiynwyr, rheoli perthnasoedd ac adrodd yn erbyn contractau/cytundebau grant (dangosyddion perfformiad allweddol ac ati)
- Gweithredu prosesau rheoli prosiectau effeithiol a hyrwyddo ffocws sefydliadol ar effaith a chanlyniadau, i gynnwys datblygu a gweithredu fframwaith canlyniadau. Rheoli llinell a datblygu timau perfformiad uchel
- Yn aelod o'r Uwch Dîm Arwain, cyfrannu at arwain a rheoli, cynllunio strategol a gweithredol, cyfleoedd twf ac ariannu.
- Ar y cyd â'r Arweinydd Diogelu, darparu cyfeiriad strategol ar gyfrifoldebau diogelu'r Elusen.
- Cynrychioli'r sefydliad mewn fforymau a digwyddiadau, gan hyrwyddo ein gwaith a datblygu partneriaethau a threfniadau allweddol.

Cyfrifoldebau Gweithredol:

- Rheoli a chydlynu adrodd effeithiol yn erbyn contractau, cynlluniau gwaith a chytundebau grant (e.e. misol, chwarterol, blynyddol lle bo'n berthnasol), gyda ffocws ar brofi ein heffaith ar gynulleidfaoedd allanol a mewnol a gwella diwylliant o atebolrwydd.
- Yn unol â'r gwaith i wella'r diwylliant atebolrwydd, tynnu ar adrodd/monitro o ansawdd uchel.
- Datblygu ymdeimlad o entrepreneuriaeth o fewn timau perthnasol, gan hyrwyddo datblygu achosion busnes ar gyfer ehangu rhaglenni/prosiectau a datblygu prosiectau newydd, mewn cydweithrediad â'r tîm ehangach.
- Cynnal cyfarfodydd rheoli contractau rheolaidd gyda rhanddeiliaid a chyllidwyr, gan oruchwylio datblygu a chyflwyno adroddiadau o ansawdd uchel, fel y bo'n berthnasol.
- Sicrhau bod prosiectau'n cael eu cyflawni o fewn cyllidebau, gan gymeradwyo gwariant o fewn prosesau sefydliadol.
- Datblygu ac ymgorffori dull rheoli prosiect effeithiol i brosiectau allweddol, gan weithio gyda gweithwyr a reolir yn uniongyrchol i sicrhau gweithrediad.
- Bod yn gyfrifol am arwain dull cadarn o asesu risg, gan gynnwys cymeradwyo digwyddiadau a gweithgareddau allweddol sy'n cynnwys pobl ifanc, oedolion a staff.
- Hyrwyddo aelodaeth Plant yng Nghymru a goruchwylio casglu data perthnasol. Gweithio gyda gweithiwr a reolir yn uniongyrchol i ddadansoddi data aelodaeth a sicrhau bod y sefydliad yn gwneud y mwyaf o'r perthnasoedd hynny er budd y ddwy ochr.
- Goruchwylio diogelu yn Plant yng Nghymru yn strategol, gan adrodd yn briodol i'r bwrdd a'r Uwch Dîm Arwain. Bydd y Cyfarwyddwr Gweithrediadau yn uniongyrchol gyfrifol am Arweinydd Diogelu'r sefydliad a bydd yn gosod ei gyfeiriad gwaith, gan sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a pholisïau perthnasol.

Cyfraniad Arwain:

- Cymryd rhan lawn mewn datblygu a monitro cynlluniau strategol a busnes Plant yng Nghymru, drwy gytuno ar raglen waith flynyddol gyda'r Prif Weithredwr a chymryd rhan mewn cyfarfodydd goruchwylio/staff.
- Cymryd rhan weithredol yn yr Uwch Dîm Arwain, gan weithio ochr yn ochr â chydweithwyr i weithredu newid a datblygu sefydliadol.
- Cynorthwyo'r Uwch Dîm Arwain i ddatblygu cynigion cyllid a chontractau.
- Cyfrannu at effeithiolrwydd a diwylliant cyffredinol y sefydliad.
- Ymrwymo i werthoedd sefydliadol a datblygiad parhaus.
- Cyfrannu at adroddiadau i'r bwrdd, yn ysgrifenedig, yn rheolaidd, ac yn bersonol ar sail ad hoc, gan dynnu ar ddata rheoli i lywio adroddiadau o ansawdd uchel.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr gan y gall fod dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill y gall Plant yng Nghymru ofyn i ddeiliad y swydd eu cyflawni o bryd i'w gilydd wrth gyfrannu at gyflawni ei weithgareddau.

Manyleb y Person

Ynglŷn â deiliad y swydd

Rydym yn chwilio am weithiwr proffesiynol profiadol o'r sector cyhoeddus neu'r trydydd sector i ymgymryd â'r rôl bwysig hon ac ymuno â'n Huwch Dîm Arwain. Yn swydd y Cyfarwyddwr Gweithrediadau byddwch yn dod ag arbenigedd o ran arwain timau llwyddiannus a'u galluogi i ddangos eu heffaith. Wedi'ch sbarduno gan werthoedd, yn llawn egni ac yn canolbwyntio ar gyflawni'r canlyniadau gorau i blant, byddwch yn deall pwysigrwydd hanfodol diogelu ac, yn ddelfrydol, yn deall cyd-destun gweithredu Plant yng Nghymru. Gyda llygad am gyfleoedd entrepreneuraidd a'r sgiliau i ddatblygu a chynnal perthynas â chyllidwyr a chydweithwyr, byddwch yn allweddol i alluogi Plant yng Nghymru i gyflawni ei uchelgeisiau strategol.

Gofynion Allweddol	**Hanfodol**	**Dymunol**
Gwybodaeth		
Bydd gennych y brwdfrydedd, yr egni a'r ymrwymiad cadarn angenrheidiol i hyrwyddo hawliau plant a gwella canlyniadau i bob plentyn yn sylfaen i'ch gwaith.	**X**	
Gwybodaeth fanwl am arferion a pholisi diogelu plant ac oedolion	**X**	
Gwybodaeth amlwg am werthoedd sefydliadol Plant yng Nghymru ac ymrwymiad amlwg iddynt	**X**	
Gwybodaeth am y trydydd sector yng Nghymru a materion polisi datganoledig perthnasol		**X**
Sgiliau		
Sgiliau rheoli prosiect amlwg, gan gynnwys gwybodaeth am dechnegau i gynllunio, monitro a gwella'r cyflawni i sicrhau effaith uchel.	**X**	
Y gallu i weithredu'n effeithiol ar lefel strategol, gan weithio mewn amgylcheddau cymhleth gyda phartneriaid o amrywiaeth o sectorau.	**X**	
Sgiliau cyfathrebu datblygedig iawn	**X**	
Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg		**X**
Cymhwyster rheoli prosiectau		**X**
Parodrwydd i deithio yn y DU ac ymgymryd â gwaith penwythnos/gyda'r nos achlysurol (e.e. presenoldeb mewn digwyddiadau preswyl)	**X**	
Profiad		
Yn gallu amlygu goruchwyliaeth strategol lwyddiannus ar raglenni a/neu wasanaethau effeithiol.	**X**	
Profiad o fonitro cynnydd/perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol a chyflawniadau gofynnol, gan sicrhau perfformiad uchel a chyflenwi o ansawdd uchel.	**X**	
Profiad o ddatblygu a rheoli cyllidebau a chynlluniau cyflawni	**X**	
Profiad o adeiladu, datblygu ac arwain timau hynod effeithiol	**X**	
Profiad o gynrychioli sefydliad yn effeithiol mewn fforymau cyhoeddus (e.e. trwy gyflwyno diweddariadau mewn cynadleddau)	**X**	
Addysg i lefel gradd mewn pwnc perthnasol		**X**
Profiad o gyfrannu at ddatblygu a chyflawni strategaeth sefydliadol, yn rhan o dîm arwain.		**X**
Profiad o greu a goruchwylio prosesau rheoli risg.	**X**	
Profiad o ddatblygu cynigion cynhyrchu incwm a datblygu busnes effeithiol		**X**

Gwybodaeth Gefndir

Plant yng Nghymru / Children in Wales yw'r sefydliad aelodaeth cenedlaethol sy'n cynrychioli unigolion a sefydliadau o bob sector sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru. Daw ein haelodau o'r sectorau cyhoeddus, elusennol/nid-er-elw ac annibynnol. Bydd ein gwaith yn seiliedig ar ddull cydweithredol, sy'n hwyluso cyfleoedd i'n haelodau, plant a phobl ifanc.

Byddwn yn gweithio tuag at ein gweledigaeth mewn cydweithrediad â'n haelodau trwy:

- Ymgyrchu dros fabwysiadu a gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn llawn ar bob lefel o gymdeithas Cymru.
- Herio anghydraddoldebau a hyrwyddo tegwch i bob plentyn a pherson ifanc ledled Cymru.
- Dwyn ynghyd a mwyhau llais cyfunol ar gyfer newid trawsnewidiol ar lefel polisi yng Nghymru.
- Hyrwyddo a chefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc o fewn strwythurau gwneud penderfyniadau ar bob lefel o lywodraeth yng Nghymru.
- Darparu llwyfan ar gyfer rhannu arferion arloesol ledled Cymru.
- Eirioli dros y sector(au) plant ar feysydd blaenoriaeth.
- Darparu cyfleoedd dysgu a datblygu ar gyfer y gweithlu proffesiynol plant traws-sector.
- Cynnal a lledaenu ymchwil ar draws ein haelodaeth.

Mae Plant yng Nghymru yn cynnal nifer o weithgareddau er mwyn cyflawni'r nodau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Trefnu cynadleddau a seminarau
- Darparu hyfforddiant
- Cefnogi a datblygu rhwydweithiau a fforymau cryf
- Cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth
- Cynrychioli ac ymgynghori ag aelodau
- Ymchwil
- Gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc drwy ein prosiect Cymru Ifanc

Mae Plant yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth â'i chwaer sefydliadau yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ac mae ganddo gysylltiadau cryf yn Ewrop ac yn rhyngwladol. A ninnau'n sefydliad aelodaeth, rydym yn sefydlu rhwydweithiau yng Nghymru er mwyn cynrychioli barn yr etholaeth, canfod pryderon cyffredin ac annog gweithgarwch amlddisgyblaethol. Gall aelodau fod naill ai'n gorfforaethol neu'n unigol, a'r rheini o amrywiaeth eang o ddiddordebau fel iechyd, addysg, sefydliadau gwirfoddol, gwasanaethau cymdeithasol neu grwpiau hunangymorth.

Ariennir ein gwaith gan grantiau oddi wrth Lywodraeth Cymru, rhoddwyr grantiau eraill a thrwy incwm a gynhyrchir gennym ni ein hunain.

Bwrdd Ymddiriedolwyr sy'n llywodraethu gwaith y sefydliad.
http://www.childreninwales.org.uk/cy/